**Cyfarfod Bwrdd Cymunedol Prifysgol Bangor** (5 Gorffennaf 2023) Presennol: Daeth cynrychiolwyr o’r cyrff/sefydliadau canlynol i’r cyfarfod: Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Bangor; Cyngor Gwynedd; Cyngor Dinas Bangor; Adra; Cymdeithas Ddinesig Bangor; Clwb Pêl-droed Dreigiau Gogledd Cymru.

**Materion dan sylw**: Gyda Gwenan Hine yn cadeirio, trafodwyd y materion canlynol; diweddariad gan Martin Hanks o Gyngor Dinas Bangor a'r datblygiadau amrywiol yng nghanol dinas Bangor a'r cyffiniau; cyflwyniad gan Chris Roberts, Clwb Pêl-droed Dreigiau Gogledd Cymru, derbynnydd Cronfa Cydweithredu Cymunedol Ymgysylltiad Dinesig; diweddariad ar ddatblygiadau Parc y Coleg gan y Cyfarwyddwr Ystadau a Gwasanaethau Campws; diweddariad gan y tîm Cenhadaeth Ddinesig, gan gynnwys diweddariad ar y Gronfa Gymunedol, y Diwrnod Cymunedol a'r digwyddiadau amrywiol a drefnwyd dros yr wythnosau; Rhoddodd Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor (GMB) drosolwg ar rai o'r projectau sydd ar y gweill a diolchodd i Gyngor Dinas Bangor am eu cefnogaeth barhaus; nodwyd y cynhelir yr wythnos raddio yn y brifysgol rhwng 10 a 14 Gorffennaf. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf i’w cadarnhau.